Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 28 Mawrth 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, D. Williams, A. Williams, D. James, S. Edwards, G. Parry, G. C. Jones, H. Huws, Meirion Jones,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	E. Parry, Mervyn Jones,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Mawrth 2017**		
3.1	G. C. Jones yn nodi bod angen diweddaru trefniadau cyllidol y Cyngor Bro. Cytunwyd i ail edrych ar ôl etholiad y Cyngor Newydd		
3.2	Gofynnwyd i'r clerc rhoi cymhariaeth flynyddol i ddefnydd trydan ac arian sydd wedi derbyn gan y byrddau snwcer.	**D. Owen**	**25/04/17**
3.3	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	A. Mummery yn nodi bod y Cyngor Sir yn bwriadu parhau a threialu gyda chwmni Kingdom am flwyddyn gyda chosbi am lygru, baw cwm ac yn y blaen.		
4.2	G. C. Jones yn nodi bod cyfarfod Ynys Môn Unllais Cymru i'w gynnal mis nesaf		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 31 Ionawr 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery wedi trafod a swyddog ym Mhlas Newydd ac yn nodi bod bwriad i wneud gwaith i wella'r Twr. A. Mummery i ddiweddaru fel mae'n derbyn unrhyw wybodaeth	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones a S. Edwards am barhau i weithredu ar drefniadau erbyn Mis Mai	**Meirion Jones a S. Edwards**	**Mai 2017**
6.3	Llwybr beicio - Cyngor Sir yn nodi fod y mater i fod wedi ei ddatrys rhai misoedd yn ôl, ond mae am wneud trefniadau gyda'r contractwr i'w wneud cyn gynted â phosib. Clerc i ddilyn i fyny.	**D. Owen**	**25/04/17**
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Clerc wedi cysylltu â'r Saer Maen. Cytunwyd i A. Jones drefnu cyfarfod y Saer Maen ar y safle.	**A. Jones**	**24/04/17**
6.5	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir, ond hen dderbyn ymateb boddhaol hyd yn hyn. Clerc I ddilyn i fyny.	**D. Owen**	**25/04/17**
6.6	Gwelliannau Pentrefol - A. Mummery am wneud ymholiadau gyda Medrwn Môn am arweiniad ar sefydlu grŵp cymunedol ar gyfer ceisio am grantiau. Cytunwyd ei rhoi ar raglen y Cyngor Newydd wedi'r etholiad		
6.7	Pryderon Parcio gyda chyfarfodydd Slimming World yn y Pentref - Nodwyd gan G. Parry ei fod ychydig gwell yn ddiweddar. Nodwyd bod angen cadw llygaid ar y sefyllfa		
6.8	Clwb Cyfrifiaduron - A. Jones yn gofyn i'r clerc wneud ymholiadau a BT i uwchraddio'r wifi yn y Neuadd Goffa gan ei fod yn araf pan mae llawer o ddefnyddwyr	**D. Owen**	**25/04/17**
6.9	Coed yn gordyfu yn y Clwb Bowlio - Nodwyd bod E. Parry wedi bod ar y safle yn asesu ac yn amcan bod ryw £400 o gost i dorri a chario nhw i ffwrdd. Cytunwyd i dderbyn y pris a gofyn iddynt am eu hasesiad risg.		**25/04/17**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 07 Mawrth 2017**		

7.1	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	Cytunwyd i dderbyn argymhellion y Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo ynglŷn â materion trefniadau Nadolig		
8.2	Toiledau Maes Parcio - Cytunwyd i holi'r Cyngor Sir am eu bwriadau gyda'r adeilad.		
9.0	**Cyfarfod gyda Delyth Owen (Horizon)**		
9.1	Mervyn Jones wedi cyfarfod gydag Delyth ynglŷn â grant sydd ar gael gan Horizon i fudiadau ar yr Ynys. Cytunwyd i ofyn i Mervyn i holi Horizon ar arweiniad. A. Mummery yn nodi bod angen cynlluniau ar gyfer be ydym yn ei geisio amdano.	**Mervyn Jones**	**25/04/17**
10	**Ceisiadau Cynllunio**		
10.1	31C439 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Ty'n Cae, Llanfairpwll - Dim sylwadau		
10.2	31C79H Cais llawn ar gyfer newid defnydd siop (dosbarth defnydd A1) i siop prydau poeth parod (dosbarth defnydd A3) yn 3 Mulcair House, Llanfairpwll - Cytunwyd i ymateb cyd gwrthwynebiad ar sail trafnidiaeth ac anghyfleustra i drigolion lleol	**D. Owen**	
11	**Gohebiaeth**		
11.1	Cyngor Sir - Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - Derbyn y wybodaeth		
11.2	Unllais Cymru - Rhybudd o gyfarfod 30/03/2017 - Derbyn y wybodaeth		
11.2	Tŷ Gobaith - llythyr diolch - Derbyn y wybodaeth		
11.4	Grid Cenedlaethol - ymateb i sylwadau'r Cyngor Bro i'r ymgynghoriad - H. Huws i'w sganio a dosbarthu		
11.5	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
11.6	Cyngor Sir - Deddf Teithio Lesol Cymru 2013 - Derbyn y wybodaeth		
11.7	Cyngor Sir - Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn Diddymu Llwybr Cyhoeddus, Llwybr Troed Rhif 3 - Derbyn y wybodaeth		
11.8	Bwrdd Gwasanaethu Cyhoeddus Gwynedd a Môn - Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn - Derbyn y wybodaeth		
12	**Materion Brys**		
12.1	D. James yn nodi ei fod wedi derbyn cwynion am gyflwr y gors a bod dim digon o finiau yno.		
12.2	D. James yn nodi ei fod wedi sylwi fod cwmnïau bws yn gadael eu stopiau cyn yr amseroedd y maent wedi hysbysu a hefyd ddim yn defnyddio'r ddwy iaith ar eu hysbysebion. Cytunwyd i ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir	**D. Owen**	**25/04/17**
12.3	S. Edwards yn nodi ei fod am gyfarfod a grŵp Eisteddfod Môn i drafod cais Llanfair am arian ar gyfer addurniadau yn gysylltiedig â'r eisteddfod		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 28 Mawrth 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad